

Rhaglen Ysgolion Heddlu Cymru  
Llyfr Nodiadau Digwyddiadau SchoolBeat

**Cydymffurfiaeth ym maes Diogelu Data  
Polisiâu, Gweithdrefnau ac Asesiad Effaith**

## Cynnwys

1	Cyflwyniad i'r ddogfen hon .....	3
2	Sefydliadau partner.....	3
3	Polisi diogelu data.....	4
4	Sail statudol dros brosesu .....	5
5	Gweithdrefn cofnodi digwyddiadau.....	6
6	Cadw data a diogelu preifatrwydd .....	8
7	Asesiad effaith.....	10
8	Adolygu.....	13
9	Cyfeiriadau.....	13

## Statws y ddogfen hon

Cyhoeddwyd y ddogfen hon ar 19/11/2021 ac mae'n weithredol o'r dyddiad hwnnw. Gall gael ei disodli gan Raglen Ysgolion Heddlu Cymru yn unol ag adran 8. Mae'r copi diweddaraf o'r ddogfen hon bob amser ar gael yn:

<https://schoolbeat.cymru/dogfennau/ryhc-ndsb>

## Saesneg / English Language

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. / This document is available in English.

<https://schoolbeat.cymru/documents/wpsp-sbin>

## 1 Cyflwyniad i'r ddogfen hon

Diben y ddogfen hon yw esbonio'r sail gyfreithiol dros gofnodi a phrosesu data yn system digwyddiadau SchoolBeat gan heddluoedd sy'n bartneriaid yn Rhaglen Ysgolion Heddlu Cymru. Nodir y gweithdrefnau ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth ag egwyddorion a pholisïau diogelu data ym maes gorfodi'r gyfraith o ran cadw'r data hyn a diogelu preifatrwydd.

Ymdrinnir â digwyddiadau SchoolBeat fel y'i hesbonnir ym Mhrotocol Trechu Troseddau mewn Ysgolion Rhaglen Ysgolion Heddlu Cymru <sup>(1)</sup>. Mae system digwyddiadau SchoolBeat yn cofnodi'r lefel ofynnol o ddata sydd ei hangen i oruchwyllo a gweinyddu'r Protocol.

Mae angen data o system digwyddiadau SchoolBeat i gadw cofnod o weithgarwch yr Heddlu mewn perthynas â digwyddiadau SchoolBeat. Mae'r broses wedi cael ei chynllunio i sicrhau ein bod yn casglu cyn lleied o wybodaeth â phosibl am yr unigolyn ond sy'n ein galluogi i weinyddu cyfiawnder a gwneud ein gwaith diogelu mewn modd effeithiol.

Oherwydd yr amrywiaeth o ddigwyddiadau yr ymdrinnir â nhw, efallai y bydd peth data sensitif am iechyd ac ymddygiad rhywiol defnyddwyr gwasanaeth yn ymhlyg. Felly, dim ond swyddogion a staff yr Heddlu sydd wedi'u hawdurdodi a gaiff eu gweld.

Mae angen crynodebau ystadegol a dadansoddiadau o'r data i fonitro'r ffordd y caiff y Protocol ei ddefnyddio a nodi tueddiadau ym maes troseddau ieuencid ac ymchwilio iddynt, fel y gall swyddogion a staff yr Heddlu lywio ein mesurau atal parhaus i ddiogelu plant a phobl ifanc.

At ddibenion archifo, ymchwil ac ystadegau, caiff y wybodaeth ei chadw am y cyfnod a nodir yn Adran 6. Caiff cofnodion sy'n mynd y tu hwnt i'r cyfnod cadw eu hanonymeddio er mwyn diogelu preifatrwydd yr unigolyn gan ddefnyddio'r weithdrefn briodol.

Cyhoeddir ystadegau allweddol o'r system hon yn adroddiad blynyddol Rhaglen Ysgolion Heddlu Cymru.

## 2 Sefydliadau partner

Mae'r ddogfen hon yn gymwys i bob heddlu sy'n dilyn Protocol Trechu Troseddau mewn Ysgolion Rhaglen Ysgolion Heddlu Cymru.

- Heddlu De Cymru
- Heddlu Dyfed-Powys
- Heddlu Gogledd Cymru
- Heddlu Gwent

Yr arweinydd rhanbarthol ar gyfer cyswllt ag ysgolion yw'r rheolwr sy'n gyfrifol am roi'r polisi ar waith ym mhob heddlu.

Caiff data a ddisgrifir yn y ddogfen hon eu dal a'u prosesu ar y cyd o dan Gytundeb Prosesu ar y Cyd Rhaglen Ysgolion Heddlu Cymru <sup>(2)</sup>. Yr arweinydd cenedlaethol ar gyfer cyswllt ag ysgolion yw'r rheolwr cyfrifol a rheolydd y data.

## 3 Polisi diogelu data

- 3.1 Mae'n rhaid i ddata digwyddiadau SchoolBeat gael eu prosesu mewn ffordd gyfreithlon a theg bob amser.

Byddwn yn cydymffurfio â'r gyfraith wrth ymdrin â digwyddiadau SchoolBeat. Byddwn yn dilyn y polisiau a'r gweithdrefnau yn y ddogfen hon. Byddwn yn cyflawni ein dyletswyddau mewn ffordd deg ac yn unol â'n cyfrifoldebau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 <sup>(3)</sup>.

- 3.2 Dim ond at y dibenion a bennwyd yn Adran 4 o'r ddogfen hon y dylid cofnodi data ar ddigwyddiadau yn y system hon.

Caiff data eu prosesu mewn ffordd gymesur er mwyn cyflawni swyddogaeth hanfodol goruchwyllo'r Protocol Trechu Troseddau mewn Ysgolion. Dim ond at y dibenion a bennir yn y ddogfen hon y caiff data yn y system hon eu defnyddio.

Mae'n rhaid i'r ffordd y mae data yn cael eu prosesu ar hyn o bryd ac yn y dyfodol gydymffurfio â Deddf Diogelu Data 2018 <sup>(4)</sup>.

- 3.3 Mae'n rhaid i'r data a gofnodir yn y system hon fod yn ddigonol, yn berthnasol a pheidio â bod yn ormodol.

Mae'r data a gofnodir wedi'u cyfyngu i gyfres ofynnol o nodweddion sydd â'r nod o leihau'r effaith ar ddisgyblion y siaredir â nhw i'r eithaf. Caiff adolygiadau eu cynnal o bryd i'w gilydd er mwyn cadarnhau a ydym yn casglu'r data cywir ar ddigwyddiadau SchoolBeat i gynllunio ac ymateb yn effeithiol.

- 3.4 Mae'n rhaid i'r data a gofnodir yn y system hon fod yn gywir hyd y gwyddys. Mae'n rhaid i unrhyw wallau gael eu cywiro.

Mae pob swyddog ac aelod o staff yn cael hyfforddiant ar sut i ddefnyddio'r system cyn gwneud hynny. Mae gweithdrefnau wedi'u sefydlu ar gyfer ychwanegu at ffurflenni digwyddiadau a diwygio data.

Caiff cofnodion sy'n ymwneud â dioddefwyr, tystion ac unigolion a amheuir eu codio'n briodol. Nid yw'r system hon yn olrhain canlyniad ymchwiliad troseddol ac felly nid yw'n cynnwys data ar euogfarnau.

Ni chaiff data o'r system hon eu trosglwyddo y tu allan i'r DU.

- 3.5 Caiff data ar y system hon eu rheoli yn unol â pholisi cadw sy'n ystyried anghenion plant. Caiff cofnodion a ddelir yn yr hirdymor eu hanonymeiddio.

Ceir manylion llawn gweithdrefnau rheoli data ac anonymeiddio data yn Adran 6.

- 3.6 Caiff data ar y system hon eu diogelu er mwyn atal mynediad heb awdurdod neu fynediad anghyfreithlon, ac atal data rhag cael eu haddasu, eu trosglwyddo neu eu colli.

Gall yr holl ddata yn y system hon fod yn sensitif i'r unigolyn. Felly, rydym yn ymrwymo i ddiogelu ein systemau data i lefel uchel. Caiff y defnydd o'r system ei reoli'n llym a'i gofnodi, gan gynnwys ychwanegu at gofnodion, eu newid, eu datgelu, eu harchwilio neu eu trosglwyddo.

Pan fydd copïau wrth gefn o'r system yn cael eu gwneud, caiff y rhain eu dal ar systemau'r heddlu a'u dinistrio yn unol â'r cyfnod cadw.

## 4 Sail statudol dros brosesu

Yr angen cymdeithasol y mae'r system hon yn ei ddiwallu yw goruchwyllo'r ffordd y dilynir Protocol Trechu Troseddau mewn Ysgolion Rhaglen Ysgolion Heddlu Cymru, sef polisi diogelu plant allweddol i Gymru sy'n disgrifio'r ffordd yr ymdrinnir â "digwyddiadau SchoolBeat".

Mae systemau eraill yr heddlu yn ymdrin â'r broses o gofnodi troseddau a rheoli ymchwiliadau troseddol yn unol â statud a pholisïau'r heddlu. Mae'n bosibl na fydd digwyddiadau SchoolBeat yn arwain at gofnodi trosedd nac ymchwiliad troseddol ac, o ganlyniad, ni ellir sicrhau'r oruchwyliaeth angenrheidiol gan ddefnyddio systemau eraill. Fel rhan o'r oruchwyliaeth hon, rhaid deall materion diogelu sy'n effeithio ar ddisgyblion er mwyn rheoli ein hymateb.

Rydym yn prosesu data ar ddigwyddiadau SchoolBeat at y dibenion canlynol:

- 4.1 sicrhau y caiff pobl ifanc eu diogelu mewn ffordd gyson ac effeithiol drwy oruchwyllo'r ffordd y dilynir Protocol Trechu Troseddau mewn Ysgolion Rhaglen Ysgolion Heddlu Cymru;
- 4.2 diogelu pobl ifanc drwy gadw cofnod o gamau diogelu;
- 4.3 ymateb i'r galw i ymdrin â digwyddiadau;
- 4.4 llunio a rheoli rhaglen addysg atal troseddau sydd â'r nod o leihau nifer y digwyddiadau yn y dyfodol;
- 4.5 dogfennu achosion o niwed ymhlith pobl ifanc a chymunedau ysgol, ymateb iddynt a'u lleihau;
- 4.6 deall y materion sy'n effeithio ar bobl ifanc sy'n wynebu risg o ymddygiad troseddol neu sydd wedi dod ar ei draws, gan gynnwys gwahaniaethau ar sail grŵp oedran a rhyw.

Mae'r amodau Atodlen 8 canlynol yn y Ddeddf Diogelu Data bob amser yn gymwys:

- mae'r data yn angenrheidiol er mwyn diogelu plant ac unigolion sy'n wynebu risg;
- mae'r data yn angenrheidiol at ddibenion archifo, ymchwil ac ystadegau.

Mae'r amod canlynol yn gymwys pan fydd digwyddiad SchoolBeat yn ymwneud â throedd:


- mae'r data yn angenrheidiol er mwyn gweinyddu cyfiawnder.

Mae'r amod canlynol yn gymwys pan fydd digwyddiad SchoolBeat yn ymwneud â thwyll:

- mae'r data yn angenrheidiol er mwyn atal twyll.

# 5 Gweithdrefn cofnodi digwyddiadau

## 5.1 Diagram Llif Data



## 5.2 Proses Llif Data

### Cam 1: Naill ai

#### Cyfeirir digwyddiad SchoolBeat at yr heddlu neu

#### Mae disgybl yn cysylltu â'r heddlu i godi pryder

Bydd yr heddlu yn gofyn am ddigon o wybodaeth i nodi'r plentyn/plant sy'n wynebu risg. Caiff y wybodaeth hon ei rhoi i Swyddog Heddlu Ysgolion.

Y wybodaeth sylfaenol sydd ei hangen i ymateb i ddigwyddiad SchoolBeat yw enw'r disgybl, blwyddyn ysgol, ysgol a fynychir, a natur y pryder. Efallai y bydd angen rhagor o wybodaeth (cyfeiriad presennol, dyddiad geni) yn dibynnu ar natur y digwyddiad y rhoddir gwybod amdano.

### Cam 2:

#### Mae'r swyddog yn cyfweld â'r disgybl(ion) ynglŷn â'r digwyddiad ac yn penderfynu ar ymateb priodol gan yr heddlu

### Cam 3:

#### Mae'r swyddog yn ymateb yn briodol

### Cam 4: A yw'r digwyddiad hwn yn golygu bod angen i'r swyddog ddilyn gweithdrefn diogelu?

Os yw, bydd y swyddog yn dilyn y weithdrefn diogelu leol (PIN, PPN ac ati fel y bo'n briodol)

### Cam 5: A oes angen cofnodi'r digwyddiad hwn ymhellach neu gynnal ymchwiliad troseddol iddo?

Os oes, bydd y swyddog yn cofnodi'r drosedd a'r ymateb gan ddefnyddio systemau lleol yr heddlu fel y bo'n briodol

### Cam 6:

#### Mae'r swyddog yn cofnodi'r digwyddiad ar system digwyddiadau SchoolBeat

Caiff y cofnod ei ddefnyddio gan Raglen Ysgolion Heddlu Cymru i oruchwylio'r ffordd y dilynir y Protocol Trechu Troseddau mewn Ysgolion at ein dibenion eraill a bennir yn Adran 4.

### Caiff unrhyw ddata

angenrheidiol eu rhoi i'r heddlu er mwyn nodi'r disgybl(ion) sy'n wynebu risg.

Gellir darparu unrhyw ddata angenrheidiol er mwyn diogelu'r disgybl

Gellir darparu unrhyw ddata angenrheidiol er mwyn ymchwilio i drosedd, atal twyll neu ddiogelu'r plentyn.

### Data a gofnodwyd

Dyddiad yr adroddiad  
Math o ddigwyddiad  
Nodiadau cyd-destun  
Ysgol a fynychir  
Grŵp blwyddyn  
Rhyw  
Ymwneud â digwyddiad  
SchoolBeat  
Ymwneud â digwyddiadau blaenorol

Noder: Mae'r ddogfen hon yn esbonio'r defnydd o ddata yn system Llyfr Nodiadau Digwyddiadau SchoolBeat. Esbonnir y sail gyfreithiol dros ddarparu'r data i ni ym Mhrotocol Rhannu Gwybodaeth Rhaglen Ysgolion Heddlu Cymru (5).

## 6 Cadw data a diogelu preifatrwydd

### 6.1 Rhesymeg

Rydym wedi ystyried sut i gydbwysu hawl pobl ifanc i breifatrwydd a'r ddyletswydd i'w diogelu rhag niwed ac ymddygiad troseddol. Ar adeg rhoi gwybod i'r heddlu am ddigwyddiad, mae'r cofnod a grëir yn y system hon yn rhan hanfodol o ddogfennu ein hymateb i'r unigolyn a'n hystyriaeth o'r ffordd orau o'i ddiogelu. Gyda threigl amser, bydd y manylion sydd eu hangen at ddibenion goruchwyllo yn lleihau. Felly, rydym wedi llunio gweithdrefnau i anonymeiddio cofnodion digwyddiadau SchoolBeat y mae ond eu hangen at ddibenion archifo, ymchwil neu ystadegau.

Er mwyn cynnig adnodd defnyddiadwy i reoli digwyddiadau SchoolBeat a'u goruchwyllo'n effeithiol, caiff cofnodion ar gyfer y flwyddyn academaidd gyfredol a hyd at chwe blwyddyn flaenorol eu cadw. Y rhesymeg dros hyn yw bod cyfnod o saith blwyddyn academaidd yn ddigon fel arfer i gwblhau cyfnod addysg (cynradd neu uwchradd) mewn ysgol ac felly dyma'r cyfnod hiraf y byddai cofnod digwyddiadau SchoolBeat yn berthnasol i ddiogelu plant yn y lleoliad hwnnw. Yn achos ysgolion sy'n derbyn disgyblion oedran cynradd ac uwchradd, credwn fod hawl y plentyn i breifatrwydd yn drech na mantais cadw'r data am gyfnod hwy.

Wrth gynllunio'r system lawn a ddisgrifir yn y ddogfen hon a'i rhoi ar waith, cynhaliwyd cam peilot o gofnodi data digwyddiadau SchoolBeat gennym. Mae'r data a ddelir gennym o'r cam peilot wedi cael eu defnyddio i asesu a chynllunio'r broses o ddatblygu'r system lawn. Mae'r data yn y system beilot yn ddarostyngedig i'r holl gyfyngiadau yn y ddogfen hon. O ran unrhyw ystadegau neu grynodedau sy'n deillio o'r data, dylid nodi, gan mai treial optio i mewn oedd y cam peilot, nad oes modd cymharu gwahanol gyfnodau, ardaloedd na rhanbarthau yn gywir. Mae'r diffyg hwn yn y cam peilot yn golygu ei bod yn llai manteisiol i'r plentyn pe bai cofnod llawn yn cael ei gadw ac rydym wedi dewis gweithredu cyfnod byrrach cyn anonymeiddio er mwyn cyfrif am hyn.

### 6.2 Cyfnod Cadw (Llyfr Nodiadau Digwyddiadau SchoolBeat)

Caiff cofnodion cyfarfodydd eu cadw ar eu ffurf wreiddiol am hyd at chwe blynedd o'r dyddiad cofnodi. O fewn chwe blynedd, byddwn yn dileu unrhyw nodiadau ar y digwyddiad. O fewn wyth mlynedd, caiff cofnodion eu hanonymeiddio drwy ddefnyddio'r weithdrefn yn 6.2.1 isod. Gellir cadw cofnodion wedi'u hanonymeiddio am gyfnod amhenodol at ddibenion ystadegau ac ymchwil.

#### 6.2.1 Gweithdrefn anonymeiddio ar gyfer Llyfr Nodiadau Digwyddiadau SchoolBeat

1. Dilëwch y nodiadau ar y digwyddiad, os oes rhai.
2. Dilëwch unrhyw ddynodydd adnabod yng nghofnodion cyfarfodydd: NICHE, ORIS, SBC, UPS
3. Dilëwch unrhyw gofnodion 'Gweler Hefyd' ar gyfer y digwyddiad.
4. Crëwch ffug god digwyddiad ar hap newydd a newid cod y digwyddiad a storiwyd i'r gwerth hwn.
5. Os nodir mai ysgol fach yw'r ysgol, yn y maes 'Ysgol a fynychir' rhowch werth generig ar gyfer yr awdurdod lleol (er enghraifft "Ysgolion Bach Blaenau Gwent").

Mae Cam 1 yn lliniaru'r risg y caiff cofnod ei ddadanonymeiddio gan unigolyn sy'n gyfarwydd â manylion y digwyddiad. Mae Camau 2 a 3 yn lliniaru'r risg y gallai cofnod gael ei



ddadanonymeiddio drwy gyfeirio at systemau eraill yr heddlu neu at eu rhifau adnabod (cod SBC neu god UPS fel y'u darparwyd yn wreiddiol). Mae Cam 4 yn lliniaru'r risg y caiff y digwyddiad ei ddadanonymeiddio gan unigolyn sy'n gwybod beth oedd cod y digwyddiad a roddwyd ar adeg cofnodi. Mae Cam 5 yn lliniaru'r risg y gellir dadanonymeiddio unigolyn yn seiliedig ar ddata cofrestru'r ysgol.

Fel arfer, nodir mai ysgol fach yw'r ysgol dan sylw os bydd cyfrifiad disgyblion Cymru yn nodi bod llai na 30 o ddisgyblion yn ei mynychu. Gellir rhoi meini prawf eraill ar waith fel y bo'n briodol ar gyfer y math o ysgol ac yn ôl disgrisiwn Rhaglen Ysgolion Heddlu Cymru.

### 6.3 Cyfnod Cadw (Cynllun Peilot Llyfr Nodiadau Digwyddiadau SchoolBeat)

Caiff cofnodion cyfarfodydd eu cadw ar eu ffurf wreiddiol am hyd at bedair blynedd. Yna, cânt eu hanonymeiddio drwy ddefnyddio gweithdrefn 6.3.1. isod. Gellir cadw cofnodion wedi'u hanonymeiddio am gyfnod amhenodol at ddibenion ystadegau ac ymchwil.

#### 6.3.1 Gweithdrefn anonymeiddio ar gyfer Cynllun Peilot Llyfr Nodiadau Digwyddiadau SchoolBeat

1. Gosodwch y maes 'Ident Type' i ddim a dilêwch unrhyw ddynodydd a storiwyd.
2. Os yw meysydd 'NICHE Occurrence' neu 'ORIS Log' wedi'u gosod, rhwch "Yes" yn lle eu gwerth.
3. Dilêwch yr holl nodiadau yn 'Incident Context' a 'Meeting Context' ar gyfer y digwyddiad.
4. Crêwch god digwyddiad ffug-hap newydd a newidiwch god y digwyddiad a storiwyd i'r gwerth hwn.

Mae Cam 1 yn lliniaru'r risg y caiff yr unigolyn dan sylw ei ddadanonymeiddio drwy ei rifau adnabod (cod SBC neu god UPS fel y'u darparwyd yn wreiddiol). Mae Cam 2 yn lliniaru'r risg y gallai'r cofnod gael ei ddadanonymeiddio drwy gyfeirio at systemau eraill yr heddlu. Mae Cam 3 yn lliniaru'r risg y caiff cofnod ei ddadanonymeiddio gan unigolyn sy'n gyfarwydd â manylion y digwyddiad. Mae Cam 4 yn lliniaru'r risg y caiff y digwyddiad ei ddadanonymeiddio gan unigolyn sy'n gwybod beth oedd cod y digwyddiad a roddwyd ar adeg cofnodi.

## 7 Asesiad effaith

### 7.1 Risg o drosdroseddoli neu dandroseddoli pobl ifanc

*Y risg y bydd pobl ifanc yn destun mwy o ymchwiliadau troseddol neu gosbau llymach, neu na chaiff ymchwiliadau angenrheidiol eu cynnal, neu y bydd unigolion yn wynebu ymatebion sy'n rhy drugarog*

#### Prosesau a chamau sy'n lliniaru'r risg hon

Lleihau'r risg hon yw prif ddiben y system hon. Caiff data digwyddiadau SchoolBeat eu monitro a'u dadansoddi er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw anghydraddoldebau sydd wedi codi wrth ddilyn y Protocol. Gweithredir y system hon o dan Brothocol Trechu Troseddau mewn Ysgolion Rhaglen Ysgolion Heddlu Cymru ac nid yw'n newid polisi na hyfforddiant mewn perthynas ag ymdrin â digwyddiadau SchoolBeat. Bydd Rhaglen Ysgolion Heddlu Cymru yn sicrhau bod swyddogion yn parhau i ddeall y Protocol drwy hyfforddiant sefydlu, hyfforddiant gloywi a'r wybodaeth sydd ar gael ar wefan SchoolBeat.

Posibilrwydd o Niwed  
Annhebygol iawn

Effaith Bosibl  
Sylweddol

Risg Gyffredinol  
Canolig

### 7.2 Risg o ddarparu nifer gormodol neu annigonol o Swyddogion Heddlu Ysgolion

*Y risg y bydd presenoldeb neu absenoldeb cofnodion digwyddiadau SchoolBeat yn arwain at ddarparu lefel plismona ormodol neu annigonol mewn ysgol.*

#### Prosesau a chamau sy'n lliniaru'r risg hon

Cydgysylltwyr rhanbarthol ar gyfer cyswllt ag ysgolion sy'n gyfrifol am neilltuo meysydd cyfrifoldeb i Swyddogion Heddlu Ysgolion. Mae'r broses hon yn seiliedig ar benderfyniadau dynol; bydd ystadegau ac adroddiadau sy'n deillio o'r system hon yn llywio gwaith cydgysylltwyr rhanbarthol ond ni chânt eu defnyddio i awtomeiddio'r penderfyniadau a wneir.

Mae rôl Swyddog Heddlu Ysgolion yn golygu cyflwyno rhaglen o wersi yn ogystal ag ymdrin â digwyddiadau SchoolBeat yn yr ysgol; fel y cyfryw, caiff pob ysgol sy'n cymryd rhan yn y rhaglen ei neilltuo i swyddog, ni waeth faint o ddigwyddiadau a geir yn yr ysgol.

Os bydd angen mwy nag un swyddog i ymdrin â digwyddiad neu ddigwyddiadau SchoolBeat, caiff cymorth ychwanegol ei neilltuo. Byddai angen y cymorth hwn cyn i gofnodion digwyddiadau fodoli felly ni allai'r system hon greu ceisiadau o'r fath am gymorth plismona ychwanegol; cyfrifoldeb swyddogion a'u rheolwyr fydd neilltuo digwyddiadau SchoolBeat o hyd.

Posibilrwydd o Niwed  
Annhebygol iawn

Effaith Bosibl  
Bach iawn

Risg Gyffredinol  
Isel

### 7.3 Risg o nodi unigolyn

*Y risg y gall unigolyn gael ei gysylltu â digwyddiad SchoolBeat yn seiliedig ar y data yn y cofnod o'r digwyddiad neu'r data o systemau eraill a, thrwy nodi'r unigolyn hwn, gall arwain at newid y ffordd y caiff ei drin*

#### Prosesau a chamau sy'n lliniaru'r risg hon

Mae angen i bersonél yr heddlu nodi pwy yw'r unigolion y mae'r heddlu wedi siarad â nhw mewn perthynas â digwyddiadau blaenorol er mwyn deall cyd-destun digwyddiad diweddarach. Er mwyn diogelu preifatrwydd yr unigolyn, dim ond cofnodi'r wybodaeth sylfaenol sydd ei hangen i'w nodi a wnawn, a dim ond personél awdurdodedig a gaiff ei gweld.

Ar ôl i'r cofnod gael ei anonymeiddio, caiff y risg hon ei lleihau i'r eithaf.

Posibilrwydd o Niwed  
Posibl

Effaith Bosibl  
Bach iawn

Risg Gyffredinol  
Isel

### 7.4 Y risg y caiff unigolyn ei nodi'n amhriodol

*Y risg y gall unigolyn gael ei gysylltu â digwyddiad SchoolBeat drwy brosesau heblaw am y rhai a ganiateir yn y ddogfen hon.*

#### Prosesau a chamau sy'n lliniaru'r risg hon

Dim ond personél awdurdodedig all weld y data ac ni fyddant yn trosglwyddo data a fyddai'n ei gwneud yn bosibl i unigolion gael eu nodi mewn cyd-destunau eraill.

Posibilrwydd o Niwed  
Annhebygol iawn

Effaith Bosibl  
Bach iawn

Risg Gyffredinol  
Isel

### 7.5 Y risg y caiff hawl unigolyn ei hanghofio

*Y risg y bydd y wybodaeth yn parhau i effeithio ar y ffordd y caiff unigolyn ei drin am ormod o amser*

#### Prosesau a chamau sy'n lliniaru'r risg hon

Mae cyfnodau cadw ac anonymeiddio ar gyfer ein data wedi cael eu pennu i gyfateb i un cyfnod yn yr ysgol (cynradd / uwchradd) Y tu hwnt i'r terfyn amser hwn, caiff cofnodion eu hanonymeiddio ac ni fydd modd nodi unigolion mwyach.

Posibilrwydd o Niwed  
Annhebygol iawn

Effaith Bosibl  
Bach iawn

Risg Gyffredinol  
Isel

## 7.6 Risg o ragfarn yn y dyfodol

*Y risg y bydd cofnodi rhan unigolyn mewn digwyddiad SchoolBeat yn effeithio ar y ffordd yr ymchwilir i ddigwyddiadau yn y dyfodol*

### Prosesau a chamau sy'n lliniaru'r risg hon

Dylai cofnodi digwyddiadau SchoolBeat yn gywir yn y system hon arwain at fwy o gysondeb yn y ffordd yr ymdrinnir â digwyddiadau ledled Cymru a thrwy hynny leihau'r cyfle i ddangos rhagfarn unigol. At hynny, caiff swyddogion eu hyfforddi i osgoi rhagfarn, gan gynnwys rhagfarn yn seiliedig ar ddigwyddiadau blaenorol.

Posibilrwydd o Niwed  
Posibl

Effaith Bosibl  
Cymedrol

Risg Gyffredinol  
Canolig

## 7.7 Risg o fynediad amhriodol

*Y risg y defnyddir cofnodion digwyddiadau SchoolBeat at ddiben amhriodol, neu'r risg y cânt eu dinistrio neu eu cyhoeddi ar ddamwain.*

### Prosesau a chamau sy'n lliniaru'r risg hon

Bydd modd cael gafael ar y data yn y system hon at ddiben plismona fel y'i pennir yn y ddogfen hon. Caiff cyfyngiadau diogelwch technegol eu rhoi ar waith er mwyn sicrhau mai dim ond personél awdurdodedig sy'n cael mynediad at y system. Dim ond data sy'n berthnasol i'w maes gweithredu neilltuedig y bydd personél yn gallu eu gweld.

Caiff copïau wrth gefn o'r data hyn eu dal ar systemau'r heddlu yn unig, a'u dileu yn unol â'r cyfnod cadw.

Caiff pob gweithgaredd ar y system hon ei gofnodi ac ymchwilir i unrhyw achos o fynediad amhriodol a ganfyddir. Byddwn yn rhoi gwybod am unrhyw fynediad amhriodol at ein systemau i Swyddfa Comisiynydd Gwybodaeth y DU.

Posibilrwydd o Niwed  
Annhebygol iawn

Effaith Bosibl  
Sylweddol

Risg Gyffredinol  
Canolig

## 7.8 Risg o gamfanteisio'n droseddol ar blant

*Y risg y gallai'r data yn y system gael eu defnyddio gan y rhai gyda bwriad troseddol i nodi plant sy'n agored i gamfanteisio.*

### Prosesau a chamau sy'n lliniaru'r risg hon

Mae camau lliniaru i ddiogelu preifatrwydd yr unigolyn yn gymwys i'r risg hon gan y byddai targedu o'r fath yn golygu bod angen nodi'r unigolyn yn gyntaf. Disgrifir y rhain uchod yn 7.3, 7.4 a 7.5.

Rydym yn diogelu ein data rhag mynediad amhriodol, fel y'i disgrifir yn 7.7.

Posibilrwydd o Niwed  
Annhebygol iawn

Effaith Bosibl  
Difrifol

Risg Gyffredinol  
Canolig

## 8 Adolygu

Caiff y ddogfen hon ei hadolygu bob dwy flynedd er mwyn sicrhau bod ein polisiau a'n gweithdrefnau yn ddigon da i gyflawni'r dasg o ddiogelu plant. Yr arweinydd cenedlaethol ar gyfer cyswllt ag ysgolion fydd y rheolwr sy'n gyfrifol am arwain yr adolygiad.

Caiff y ddogfen hon ei disodli gan fersiynau diweddarach, a ddaw i rym ar adeg eu cyhoeddi. Bwriedir defnyddio gwefan [SchoolBeat.cymru](https://schoolbeat.cymru) i gyhoeddi diwygiadau i'r ddogfen hon.

## 9 Cyfeiriadau

---

<sup>1</sup> Rhaglen Ysgolion Heddlu Cymru: Protocol Trechu Troseddau mewn Ysgolion  
<https://schoolbeat.cymru/documents/ryhc-ptty>

<sup>2</sup> Rhaglen Ysgolion Heddlu Cymru: Cytundeb Prosesu ar y Cyd  
<https://schoolbeat.cymru/dogfennau/ryhc-cpc>

<sup>3</sup> Llywodraeth y DU: Deddf Cydraddoldeb 2010  
<https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2010/15/contents>

<sup>4</sup> Llywodraeth y DU: Deddf Diogelu Data 2018  
<https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2018/12/contents>

<sup>5</sup> Rhaglen Ysgolion Heddlu Cymru: Protocol Rhannu Gwybodaeth  
<https://schoolbeat.cymru/dogfennau/ryhc-prg>